



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 1702 (Cy.164)

TAI, CYMRU

Rheoliadau System Mesur Iechyd a
Diogelwch ar gyfer Tai (Cymru)
2006

NODYN ESBONIADOL

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau*)

Mae Rhan 1 o Ddeddf Tai 2004 ("y Ddeddf") yn cyflwyno'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai ("HHSRS"), sef system ar gyfer asesu cyflwr tai ar sail tystiolaeth. Mae adrannau 2 a 4 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau i ragnodi disgrifiadau o beryglon posibl, y dull o asesu pa mor ddifrifol yw'r peryglon posibl, a'r modd y gwneir arolygiadau o fangreodd preswyl ac i ba raddau y'u gwneir a hynny i weld a yw peryglon posibl categori 1 neu 2 yn bodoli. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau gorfodi os yw perygl posibl categori 1 yn bodoli ac yn caniatáu cymryd camau yn ôl disgrifiadau os yw perygl categori 2 yn bodoli.

Mae rheoliad 3 yn rhagnodi disgrifiadau o beryglon posibl gan gyfeirio at fodolaeth materion neu amgylchiadau a restrir yn Atodlen 1. Mae'r materion a'r amgylchiadau hyn yn adlewyrchu proffiliau peryglon posibl a geir yn Atodiad D i'r arweiniad gweithredu a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 9(1)(a) o'r Ddeddf.

Mae adran 10 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymgynghori â'r awdurdod Tân ac achub dros yr ardal os yw camau gorfodi i'w cymryd o dan Ran 1 mewn perthynas â pherygl Tân posibl a ragnodwyd. Mae rheoliad 4 yn rhagnodi perygl Tân posibl at ddibenion adran 10 yn un lle y mae bod mewn cyffyrddiad â thân afreolus a mwg sy'n gysylltiedig ag ef yn arwain at risg posibl o niwed.

Mae rheoliad 5 yn darparu ar gyfer y modd y mae mangreodd i gael eu harchwilio o dan yr HHSRS ac i ba raddau y maent i gael eu harchwilio. Yn benodol,

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 1702 (W.164)

HOUSING, WALES

The Housing Health and Safety Rating System (Wales) Regulations 2006

EXPLANATORY NOTE

(*This note is not part of the Regulations*)

Part 1 of the Housing Act 2004 ("the Act") introduces the Housing Health and Safety Rating System ("HHSRS"), an evidence-based system for assessing housing conditions. Sections 2 and 4 of the Act provide for regulations to be made to prescribe descriptions of hazards, the method for assessing the seriousness of hazards and the manner and extent of inspections of residential premises to see whether category 1 or 2 hazards exist. The Act imposes a duty on local authorities to take enforcement action where a category 1 hazard exists and gives discretion to take action where a category 2 hazard exists.

Regulation 3 prescribes descriptions of hazards with reference to the occurrence of matters or circumstances listed in Schedule 1. These matters and circumstances reflect the profiles of hazards set out in Annex D of the operating guidance given by the National Assembly for Wales under section 9(1)(a) of the Act.

Section 10 of the Act imposes a duty on local authorities to consult with the fire and rescue authority for the area where enforcement action is to be taken under Part 1 in relation to a prescribed fire hazard. Regulation 4 prescribes a fire hazard for the purposes of section 10 as one where the risk of harm arises from exposure to uncontrolled fire and associated smoke.

Regulation 5 provides for the manner in which, and the extent to which, premises are to be inspected under the HHSRS. In particular, a record of the inspection

rhaid paratoi cofnod o'r arolygiad a'i gadw naill ai'n ysgrifenedig neu ar ffurf electronig.

Mae rheoliad 6 yn rhagnodi dull cyfrifo difrifoldeb peryglon posibl ac mae hwnnw i'w fynegi ar ffurf sgôr rifiadol.

Mae rheoliad 7 yn rhagnodi'r bandiau sy'n gymwys i ystod o sgoriau rhifiadol ac mae rheoliad 8 yn darparu mai perygl posibl categori 1 yw un sy'n dod o fewn bandiau A, B neu C ac mai perygl posibl categori 2 yw un sy'n dod o fewn unrhyw fand arall.

Mae Atodlen 2 yn disgrifio pob dosbarth o niwed ac yn cynnwys enghreifftiau o bob dosbarth o niwed.

must be prepared and kept either in written or electronic form.

Regulation 6 prescribes the method for calculating the seriousness of hazards to be expressed as a numerical score.

Regulation 7 prescribes the bands applicable to the range of numerical scores and regulation 8 provides that where a hazard falls within bands A, B or C the hazard is a category 1 hazard and where it falls within any other band it is a category 2 hazard.

Schedule 2 describes each class of harm and includes examples of each class of harm.

2006 Rhif 1702 (Cy.164)

TAI, CYMRU

**Rheoliadau System Mesur Iechyd a
Diogelwch ar gyfer Tai (Cymru)
2006**

Wedi'u gwneud

27 Mehefin 2006

Yn dod i rym

30 Mehefin 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 2, 4 a 250(2)(a) o Ddeddf Tai 2004(1) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwysyo

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (Cymru) 2006 a deuant i rym ar y 30 Mehefin 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran mangroedd preswyl yng Nghymru(2).

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw person sy'n gwneud arolygiad o dan adran 4 o'r Ddeddf (arolygiadau gan awdurdodau tai lleol i weld a oes perygl posibl categori 1 neu 2 yn bodoli);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Ddedf Tai 2004;

mae "mediannydd" ("*occupier*") yn cynnwys meddiannydd posibl, ac eithrio yn rheoliad 6(7)(e); ac

ystyr "niwed" ("*harm*") yw niwed sydd o fewn unrhyw un o'r Dosbarthiadau rhwng I a IV fel a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

2006 No. 1702 (W.164)

HOUSING, WALES

The Housing Health and Safety Rating System (Wales) Regulations 2006

Made

27 June 2006

Coming into force

30 June 2006

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by sections 2, 4 and 250(2)(a) of the Housing Act 2004(1) makes the following Regulations:

Title, commencement and application

1.-(1) The title of these Regulations is the Housing Health and Safety Rating System (Wales) Regulations 2006 and they come into force on 30 June 2006.

(2) These Regulations apply in relation to residential premises in Wales(2).

Interpretation

2. In these Regulations-

"the Act" ("*Y Ddeddf*") means the Housing Act 2004;

"harm" ("*niwed*") means harm which is within any of Classes I to IV as set out in Schedule 2 to these Regulations;

"inspector" ("*arolygydd*") means a person carrying out an inspection under section 4 of the Act (inspections by local housing authorities to see whether a category 1 or 2 hazard exists); and

except in regulation 6(7)(e), "occupier" ("*mediannydd*") includes potential occupier.

(1) 2004 p.34.

(2) Mae'r pwerau a roddwyd gan adrannau 2 a 4 o'r Ddeddf yn arferadwy, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. *Gweler* y diffiniad o "the appropriate national authority" yn adran 261(1).

(1) 2004 c.34.

(2) The powers conferred by sections 2 and 4 of the Act are exercisable, as respects Wales, by the National Assembly for Wales. See the definition of "the appropriate national authority" in section 261(1).

Disgrifiadau rhagnodedig o berygl posibl

3.-(1) Mae i berygl posibl ddisgrifiad rhagnodedig at ddibenion y Ddeddf os yw'r risg o niwed yn gysylltiedig â bod unrhyw un neu rai o'r materion neu'r amgylchiadau a restrir yn Atodlen 1 yn bodoli.

(2) Yn Atodlen 1, oni nodir yn wahanol, cyfeiriad at fater neu amgylchiad yn yr annedd neu yn y ty amlfeddiannaeth o dan sylw, neu mewn unrhyw adeilad neu ar unrhyw dir yng nghyffiniau'r annedd neu'r ty amlfeddiannaeth, yw cyfeiriad at fater neu amgylchiad.

Perygl Tân posibl a ragnodwyd

4. At ddibenion adran 10 o'r Ddeddf perygl posibl categori 1 a 2(1) yw perygl Tân posibl a ragnodwyd os yw'r risg o niwed yn gysylltiedig â bod mewn cyffyrddiad â thân afreolus a mwg cysylltiedig.

Arolygiadau

5. Rhaid i arolygydd-

- (a) rhoi sylw i unrhyw ganllau a roddir am y tro o dan adran 9 o'r Ddeddf mewn perthynas ag arolygu mangreoedd;
- (b) arolygu unrhyw fangreoedd preswyl gyda golwg ar baratoi cofnod cywir o'u stad a'u cyflwr; ac
- (c) paratoi a chadw'r cyfryw gofnod yn ysgrifenedig neu ar ffurf electronig.

Difrifoldeb peryglon posibl

6.-(1) Os bydd arolygydd, yn sgil arolygiad o fangreoedd preswyl o dan adran 4 o'r Ddeddf-

- (a) yn penderfynu bod perygl posibl y mae iddo ddisgrifiad a ragnodwyd yn bodoli; a
- (b) ac o roi sylw i unrhyw ganllau a roddir am y tro o dan adran 9 o'r Ddeddf mewn perthynas â'r asesiadau o beryglon posibl, o'r farn ei bod yn briodol cyfrifo pa mor ddifrifol yw'r perygl posibl hwnnw,

rhaid cyfrifo pa mor ddifrifol yw'r perygl posibl hwnnw yn unol â pharagraffau (2) i (4) o'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i'r arolygydd asesu pa mor debygol ydyw, yn ystod y cyfnod o 12 mis yn cychwyn ar ddyddiad yr asesiad, i feddianydd perthnasol ddioddef unrhyw niwed o ganlyniad i'r ffaith bod y perygl posibl hwnnw, yn dod o fewn un o'r ystod cymarebau tebygolrwydd a geir yng ngholofn 1 o Dabl 1.

Prescribed descriptions of hazard

3.-(1) A hazard is of a prescribed description for the purposes of the Act where the risk of harm is associated with the occurrence of any of the matters or circumstances listed in Schedule 1.

(2) In Schedule 1, a reference to a matter or circumstance is, unless otherwise stated, to a matter or circumstance in or, as the case may be, at the dwelling or HMO in question, or in any building or land in the vicinity of the dwelling or HMO.

Prescribed fire hazard

4. For the purposes of section 10 of the Act a category 1 or 2 hazard⁽¹⁾ is a prescribed fire hazard if the risk of harm is associated with exposure to uncontrolled fire and associated smoke.

Inspections

5. An inspector must-

- (a) have regard to any guidance for the time being given under section 9 of the Act in relation to the inspection of premises;
- (b) inspect any residential premises with a view to preparing an accurate record of their state and condition; and
- (c) prepare and keep such a record in written or in electronic form.

Seriousness of hazards

6.-(1) Where, following an inspection of residential premises under section 4 of the Act, the inspector-

- (a) determines that a hazard of a prescribed description exists; and
- (b) considers, having regard to any guidance for the time being given under section 9 of the Act in relation to the assessment of hazards, that it is appropriate to calculate the seriousness of that hazard,

the seriousness of that hazard must be calculated in accordance with paragraphs (2) to (4) of this regulation.

(2) The inspector must assess the likelihood, during the period of 12 months beginning with the date of the assessment, of a relevant occupier suffering any harm as a result of that hazard as falling within one of the range of ratios of likelihood set out in column 1 of Table 1.

(1) Gweler y diffiniad o berygl posibl categori 1 a categori 2 yn adran 2(1) o'r Ddeddf.

(1) See the definition of "category 1 hazard" and "category 2 hazard" in section 2(1) of the Act.

Tabl 1

<i>Colofn 1 Ystod cymarebau tebygolrwydd</i>	<i>Colofn 2 Pwynt graddfa cynrychioliadol yr ystod</i>
Llai tebygol nag 1 mewn 4200	5600
1 mewn 4200 hyd 1 mewn 2400	3200
1 mewn 2400 hyd 1 mewn 1300	1800
1 mewn 1300 hyd 1 mewn 750	1000
1 mewn 750 hyd 1 mewn 420	560
1 mewn 420 hyd 1 mewn 240	320
1 mewn 240 hyd 1 mewn 130	180
1 mewn 130 hyd 1 mewn 75	100
1 mewn 75 hyd 1 mewn 42	56
1 mewn 42 hyd 1 mewn 24	32
1 mewn 24 hyd 1 mewn 13	18
1 mewn 13 hyd 1 mewn 7.5	10
1 mewn 7.5 hyd 1 mewn 4	6
1 mewn 4 hyd 1 mewn 2.5	3
1 mewn 2.5 hyd 1 mewn 1.5	2
Mwy tebygol nag 1 mewn 1.5	1

(3) Rhaid i'r arolygydd asesu o ba un o'r pedwar dosbarth o niwed (a nodir yn Atodlen 2) y mae meddiannydd perthnasol yn fwyaf tebygol o ddioddef yn ystod y cyfnod a grybwyllir ym mharagraff (2).

(4) Rhaid i'r arolygydd-

- (a) asesu'r posiblwrwydd y bydd pob un o'r dosbarthiadau eraill o niwed yn digwydd o ganlyniad i'r ffaith bod y perygl posibl hwnnw yn dod o fewn un o'r ystod canrannau posiblwrwydd a geir yng ngholofn 1 o Dabl 2;
- (b) cofnodi pob posiblwrwydd a asesir felly ar ffurf y pwynt cyfatebol o blith pwyntiau graddfa cynrychioliadol yr ystod ganrannol a geir yng ngholofn 2 o Dabl 2; ac
- (c) cofnodi'r posiblwrwydd (sy'n wybyddus at ddibenion y fformiwl a mharagraff (5) fel pwynt graddfa cynrychioliadol yr ystod ganrannol (RSPPR)) bod y dosbarth mwyaf tebygol o niwed yn digwydd, a hynny ar ffurf canran a gyfrifir gan ddefnyddio'r fformiwl ganlynol-

Table 1

<i>Column 1 Range of ratios of likelihood</i>	<i>Column 2 Representative scale point of range</i>
Less likely than 1 in 4200	5600
1 in 4200 to 1 in 2400	3200
1 in 2400 to 1 in 1300	1800
1 in 1300 to 1 in 750	1000
1 in 750 to 1 in 420	560
1 in 420 to 1 in 240	320
1 in 240 to 1 in 130	180
1 in 130 to 1 in 75	100
1 in 75 to 1 in 42	56
1 in 42 to 1 in 24	32
1 in 24 to 1 in 13	18
1 in 13 to 1 in 7.5	10
1 in 7.5 to 1 in 4	6
1 in 4 to 1 in 2.5	3
1 in 2.5 to 1 in 1.5	2
More likely than 1 in 1.5	1

(3) The inspector must assess which of the four classes of harm (set out in Schedule 2) a relevant occupier is most likely to suffer during the period mentioned in paragraph (2).

(4) The inspector must-

- (a) assess the possibility of each of the other classes of harm occurring as a result of that hazard, as falling within one of the range of percentages of possibility set out in column 1 of Table 2;
- (b) record each possibility so assessed as the corresponding RSPPR set out in column 2 of Table 2; and
- (c) record the possibility (which is known for the purposes of the formula in paragraph (5), as the RSPPR) of the most likely class of harm occurring as a percentage calculated using the following formula-

100% - (A + B + C)

Yn yr achos hwn-

A yw pwynt ystod cynrychioliadol yr ystod ganrannol (RSPPR) a gofnodir o dan is-baragraff (b) fel yr ail ddosbarth mwyaf tebygol o niwed;

B yw pwynt ystod cynrychioliadol yr ystod ganrannol (RSPPR) a gofnodir o dan is-baragraff (b) fel y trydydd dosbarth mwyaf tebygol o niwed; ac

C yw pwynt ystod cynrychioliadol yr ystod ganrannol (RSPPR) a gofnodir o dan is-baragraff (b) fel y pedwerydd dosbarth mwyaf tebygol o niwed.

Tabl 2

<i>Colofn 1 Ystod canrannau posiblwydd</i>	<i>Colofn 2 Pwynt graddfa cynrychioliadol yr ystod ganrannol (RSPPR)</i>
O dan 0.05%	0%
0.5 hyd 0.15%	0.1%
0.15% hyd 0.3%	0.2%
0.3% hyd 0.7%	0.5%
0.7% hyd 1.5%	1%
1.5% hyd 3%	2.2%
3% hyd 7%	4.6%
7% hyd 15%	10%
15% hyd 26%	21.5%
26% hyd 38%	31.6%
Dros 38%	46.4%

(5) Pan fydd yr arolygydd wedi asesu pa mor debygol ydyw o dan baragraff (2) ac wedi asesu pa mor bosibl ydyw o dan baragraff (3) i bob niwed ddigwydd rhaid iddo fynegi difrifoldeb y perygl posibl hwnnw fel sgôr rifiadol a gyfrifir drwy ddefnyddio'r fformiwlw ganlynol-

$$S1 + S2 + S3 + S4$$

Yn yr achos hwn-

$$S1 = 10000 \times (1/L) \times O1$$

$$S2 = 1000 \times (1/L) \times O2$$

$$S3 = 300 \times (1/L) \times O3$$

$$S4 = 10 \times (1/L) \times O4$$

(6) At ddibenion y fformiwlw ym mharagraff (5)-

100% - (A + B + C)

Where-

A is the RSPPR recorded under sub-paragraph (b) as the second most likely class of harm;

B is the RSPPR recorded under sub-paragraph (b) as the third most likely class of harm; and

C is the RSPPR recorded under sub-paragraph (b) as the fourth most likely class of harm.

Table 2

<i>Column 1 Range of percentages of possibility</i>	<i>Column 2 Representative scale point of the percentage range (RSPPR)</i>
Below 0.05%	0%
0.5 to 0.15%	0.1%
0.15% to 0.3%	0.2%
0.3% to 0.7%	0.5%
0.7% to 1.5%	1%
1.5% to 3%	2.2%
3% to 7%	4.6%
7% to 15%	10%
15% to 26%	21.5%
26% to 38%	31.6%
Above 38%	46.4%

(5) When the inspector has assessed the likelihood under paragraph (2) and assessed the possibility of each harm occurring under paragraph (3) the seriousness of that hazard must be expressed by a numerical score calculated using the following formula-

$$S1 + S2 + S3 + S4$$

Where-

$$S1 = 10000 \times (1/L) \times O1$$

$$S2 = 1000 \times (1/L) \times O2$$

$$S3 = 300 \times (1/L) \times O3$$

$$S4 = 10 \times (1/L) \times O4$$

(6) For the purposes of the formula in paragraph (5)-

- (a) L yw pwynt graddfa cynrychioliadol yr ystod ganrannol (RSPPR) yng ngholofn 2 o Dabl 1 sy'n cyfateb i'r ystod a gofnodwyd o dan baragraff (2);
- (b) O1 yw pwynt graddfa cynrychioliadol yr ystod ganrannol (RSPPR) a gofnodir o dan baragraff (4) mewn perthynas â niwed Dosbarth I;
- (c) O2 yw pwynt graddfa cynrychioliadol yr ystod ganrannol (RSPPR) a gofnodir o dan baragraff (4) mewn perthynas â niwed Dosbarth II;
- (ch) O3 yw pwynt graddfa cynrychioliadol yr ystod ganrannol (RSPPR) a gofnodir o dan baragraff (4) mewn perthynas â niwed Dosbarth III;
- (d) O4 yw pwynt graddfa cynrychioliadol yr ystod (RSPPR) a gofnodir o dan baragraff (4) mewn perthynas â niwed Dosbarth IV.

(7) Yn y rheoliad hwn-

os yw'r risg o niwed o dan sylw yn gysylltiedig â bod unrhyw un neu rai o'r materion neu'r amgylchiadau a restrir fel a nodir isod yn bodoli, ystyr "mediannydd perthnasol" ("relevant occupier")-

- (a) ym mharagraff 1 o Atodlen 1, yw mediannydd o dan 15 mlwydd oed;
- (b) ym mharagraff 2, 3 neu 6(a) o Atodlen 1, yw mediannydd 65 mlwydd oed neu drosodd;
- (c) ym mharagraff 7 o Atodlen 1, yw mediannydd o dan 3 blwydd oed;
- (ch) ym mharagraff 8 o Atodlen 1, yw mediannydd 60 mlwydd oed neu drosodd sydd wedi bod mewn cyffyrddiad â radon ers ei enedigaeth;
- (d) ym mharagraff 11 o Atodlen 1, yw'r mediannydd ei hun;
- (dd) ym mharagraff 17, 22, 23 neu 25 o Atodlen 1, yw mediannydd o dan 5 mlwydd oed;
- (e) ym mharagraff 19, 20, 21, 24 neu 28 o Atodlen 1, yw mediannydd 60 mlwydd oed neu drosodd;
- (f) ym mharagraff 26-
 - (i) ac eithrio os gwrthdrawiad ydyw â nodweddion pensaerniol isel, yw mediannydd o dan 5 mlwydd oed, a
 - (ii) os gwrthdrawiad ydyw â nodweddion pensaerniol isel, yw mediannydd 16 mlwydd oed neu drosodd;
- (ff) yn unrhyw baragraff arall o Atodlen 1, yw unrhyw feddiannydd; ac

ystyr "RSPPR" yw pwynt graddfa cynrychioliadol yr ystod ganrannol.

(8) Wrth wneud asesiadau o dan y rheoliad hwn, rhaid i arolygydd roi sylw i unrhyw ganllau a roddir am y tro o dan adran 9 o'r Ddeddf.

- (a) L is the representative scale point of range in column 2 of Table 1 corresponding to the range that has been recorded under paragraph (2);
- (b) O1 is the RSPPR recorded under paragraph (4) in relation to Class I harm;
- (c) O2 is the RSPPR recorded under paragraph (4) in relation to Class II harm;
- (d) O3 is the RSPPR recorded under paragraph (4) in relation to a Class III harm;
- (e) O4 is the RSPPR recorded under paragraph (4) in relation to Class IV harm.

(7) In this regulation-

"relevant occupier" ("*mediannydd perthnasol*") means where the risk of harm concerned is associated with the occurrence of any of the matters or circumstances listed in-

- (a) paragraph 1 of Schedule 1, an occupier under the age of 15 years;
- (b) paragraph 2, 3 or 6(a) of Schedule 1, an occupier aged 65 years or over;
- (c) paragraph 7 of Schedule 1, an occupier under the age of 3 years;
- (d) paragraph 8 of Schedule 1, an occupier aged 60 years or over who has been exposed to radon since birth;
- (e) paragraph 11 of Schedule 1, the actual occupier;
- (f) paragraph 17, 22, 23 or 25 of Schedule 1, an occupier under the age of 5 years;
- (g) paragraph 19, 20, 21, 24 or 28 of Schedule 1, an occupier aged 60 years or over;
- (h) paragraph 26-
 - (i) except where a collision is with low architectural features, an occupier under the age of 5 years, and
 - (ii) where a collision is with low architectural features, an occupier aged 16 years or over;
- (i) in any other paragraph of Schedule 1, any occupier; and

"RSPPR" means the representative scale point of the percentage range.

(8) In making assessments under this regulation, an inspector must have regard to any guidance for the time being given under section 9 of the Act.

Bandiau rhagnodedig

7. At ddibenion y Ddeddf daw perygl posibl o fewn band a ddynodir gan lythyren yng ngholofn 1 o Dabl 3 pan fydd yn cyraedd sgôr rifiadol a gyfrifir yn unol â rheoliad 6(5) ac sydd o fewn yr ystod sy'n cyfateb i'r lythyren honno yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw.

Tabl 3

<i>Colofn 1 Band</i>	<i>Colofn 2 Ystod Sgôr Rifiadol</i>
A	5000 neu fwy
B	2000 hyd 4999
C	1000 hyd 1999
D	500 hyd 999
E	200 hyd 499
F	100 hyd 199
G	50 hyd 99
H	20 hyd 49
I	10 hyd 19
J	9 neu lai

Prescribed bands

7. For the purposes of the Act a hazard falls within a band identified by a letter in column 1 of Table 3 where it achieves a numerical score calculated in accordance with regulation 6(5) which is within the range corresponding to that letter in column 2 of that Table.

Table 3

<i>Column 1 Band</i>	<i>Column 2 Numerical Score Range</i>
A	5000 or more
B	2000 to 4999
C	1000 to 1999
D	500 to 999
E	200 to 499
F	100 to 199
G	50 to 99
H	20 to 49
I	10 to 19
J	9 or less

Categori o berygl posibl

8. At ddibenion y Ddeddf-

- (a) mae perygl posibl sy'n dod o fewn band A, B neu C yn Nhabl 3 yn berygl posibl categori 1;
- a
- (b) mae perygl posibl sy'n dod o fewn unrhyw fand arall yn y Tabl hwnnw yn berygl posibl categori 2.

Category of hazard

8. For the purposes of the Act-

- (a) a hazard falling within band A, B or C of Table 3 is a category 1 hazard; and
- (b) a hazard falling within any other band in that Table is a category 2 hazard.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

27 Mehefin 2006

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1).

27 June 2006

The Presiding Officer of the National Assembly

(1)1998 p.38.

(1) 1998 c.38.

Rheoliad 3(1)

Materion ac Amgylchiadau

Regulation 3(1)

Matters and Circumstances

Lleithder a thyfiant llwydni

1. Bod mewn cyffyrddiad â gwiddon llwch mewn cartrefi, lleithder, tyfiant llwydni neu dyfiant ffwngaid.

Oerfel gormodol

2. Bod mewn cyffyrddiad â thymheredd isel.

Gwres gormodol

3. Bod mewn cyffyrddiad â thymheredd uchel.

Asbestos a ffibrau mwynau a weithgynhyrchwyd

4. Bod mewn cyffyrddiad â ffibrau asbestos neu ffibrau mwynau a weithgynhyrchwyd.

Bywleiddiaid

5. Bod mewn cyffyrddiad â chemegolion a ddefnyddir i drin pren a thyfiant llwydni.

Carbon monocsid a chynhyrchion tanwydd hylosgi

6. Bod mewn cyffyrddiad â'r canlynol-

- (a) carbon monocsid;
- (b) nitrogen diocsid;
- (c) sylffwr diocsid a mwg.

Plwm

7. Amlyncu plwm.

Ymbelydredd

8. Dod i gyffyrddiad ag ymbelydredd.

Nwy tanwydd nas hylosgyd

9. Bod mewn cyffyrddiad â nwy tanwydd nas hylosgyd.

Cyfansoddion organig anweddol

10. Dod i gyffyrddiad â chyfansoddion organig anweddol.

Gorboblogi a gofod

11. Diffyg gofod digonal ar gyfer byw a chysgu.

Damp and mould growth

1. Exposure to house dust mites, damp, mould or fungal growths.

Excess cold

2. Exposure to low temperatures.

Excess heat

3. Exposure to high temperatures.

Asbestos and MMF

4. Exposure to asbestos fibres or manufactured mineral fibres.

Biocides

5. Exposure to chemicals used to treat timber and mould growth.

Carbon monoxide and fuel combustion products

6. Exposure to-

- (a) carbon monoxide;
- (b) nitrogen dioxide;
- (c) sulphur dioxide and smoke.

Lead

7. The ingestion of lead.

Radiation

8. Exposure to radiation.

Uncombusted fuel gas

9. Exposure to uncombusted fuel gas.

Volatile organic compounds

10. Exposure to volatile organic compounds.

Crowding and space

11. A lack of adequate space for living and sleeping.

Tresbaswyr yn dod i mewn

12. Anawsterau wrth gadw'r annedd neu'r tŷ amlfediannaeth yn ddiogel rhag i bobl nas awdurdodir ddod i mewn.

Goleu

13. Diffyg golau digonol.

Sŵn

14. Bod mewn cysylltiad â sŵn.

Hylendid domestig, pla a sbwriel

15.-(1) Dyluniad, cynllun neu adeiladwaith gwael fel na ellir yn hawdd gadw'r annedd neu'r tŷ amlfediannaeth yn lân.

(2) Bod mewn cyffyrddiad â phla.

(3) Darpariaeth annigonol ar gyfer storio gwastraff tŷ a'i waredu'n hylan.

Diogelwch bwyd

16. Darpariaeth annigonol o gyfleusterau ar gyfer storio, paratoi a choginio bwyd.

Hylendid personol, carthffosiaeth a draeniau

17. Darpariaeth annigonol-

- (a) o gyfleusterau i gynnal hylendid personol da;
- (b) o garthffosiaeth a draenio.

Cyflenwad dŵr

18. Cyflenwad annigonol o ddŵr sydd heb ei halogi, er mwyn ei yfed ac at ddibenion domestig eraill.

Cwympo yn gysylltiedig â baddonau etc

19. Cwympo sy'n gysylltiedig â thoiledau, baddonau, cawodydd neu gyfleusterau ymolchi eraill.

Cwympo ar arwynebau gwastad etc

20. Cwympo ar unrhyw arwyneb gwastad neu gwympo rhwng arwynebau pan na fydd y newid yn y lefel yn fwy na 300 milimetr.

Cwympo ar risiau etc

21. Cwympo ar risiau, stepiau neu rampiau pan fydd y newid mewn lefel yn 300 milimetr neu'n fwy.

Entry by intruders

12. Difficulties in keeping the dwelling or HMO secure against unauthorised entry.

Lighting

13. A lack of adequate lighting.

Noise

14. Exposure to noise.

Domestic hygiene, pests and refuse

15.-(1) Poor design, layout or construction such that the dwelling or HMO cannot readily be kept clean.

(2) Exposure to pests.

(3) An inadequate provision for the hygienic storage and disposal of household waste.

Food safety

16. An inadequate provision of facilities for the storage, preparation and cooking of food.

Personal hygiene, sanitation and drainage

17. An inadequate provision of-

- (a) facilities for maintaining good personal hygiene;
- (b) sanitation and drainage.

Water supply

18. An inadequate supply of water free from contamination, for drinking and other domestic purposes.

Falls associated with baths etc

19. Falls associated with toilets, baths, showers or other washing facilities.

Falling on level surfaces etc

20. Falling on any level surface or falling between surfaces where the change in level is less than 300 millimetres.

Falling on stairs etc

21. Falling on stairs, steps or ramps where the change in level is 300 millimetres or more.

Cwympo rhwng lefelau

22. Cwympo rhwng lefelau pan fydd y gwahaniaeth yn y lefelau yn 300 milimetru neu'n fwy.

Peryglon posibl gyda thrydan

23. Bod mewn cyffyrddiad â thrydan.

Tân

24. Bod mewn cyffyrddiad â thân afreolus a'r mwg sy'n gysylltiedig ag ef.

Fflamau, arwynebau poeth etc

25. Bod mewn cyffyrddiad â'r canlynol-

- (a) tân neu fflamau a reolir;
- (b) pethau, hylifau neu anweddau poeth.

Taro yn erbyn neu mynd yn sownd

26. Taro yn erbyn drysau, ffenestri neu nodweddion pensaerniol eraill, neu rannau o'r corff yn mynd yn sownd ynddynt.

Ffrwydradau

27. Ffrwydrad yn yr annedd neu yn y ty amlfediannaeth.

Safle amwynderau a'u gweithrediad etc

28. Safle, lleoliad a gweithrediad amwynderau, ffitiadau a chyfarpar.

Dymchwel strwythurol ac elfennau'n disgyn

29. Yr annedd gyfan neu ran ohoni neu'r ty amlfediannaeth cyfan neu ran ohono yn dymchwel.

Falling between levels

22. Falling between levels where the difference in levels is 300 millimetres or more.

Electrical hazards

23. Exposure to electricity.

Fire

24. Exposure to uncontrolled fire and associated smoke.

Flames, hot surfaces etc

25. Contact with-

- (a) controlled fire or flames;
- (b) hot objects, liquid or vapours.

Collision and entrapment

26. Collision with, or entrapment of body parts in, doors, windows or other architectural features.

Explosions

27. An explosion at the dwelling or HMO.

Position and operability of amenities etc

28. The position, location and operability of amenities, fittings and equipment.

Structural collapse and falling elements

29. The collapse of the whole or part of the dwelling or HMO.

ATODLEN 2

Rheoliad 2

Dosbarthiadau o Niwed

Dosbarth I

1. Niwed Dosbarth 1 yw unrhyw niwed eithafol y gellir yn rhesymol ei rag-weld o ganlyniad i'r perygl posibl dan sylw, gan gynnwys-

- (a) marw o unrhyw achos;
- (b) canser yr ysgyfaint;
- (c) mesothelioma a thyfiannau malaen eraill;
- (ch) parlysu parhaol islaw'r gwddf;
- (d) niwmonia difrifol a rheolaidd;
- (dd) colli ymwybyddiaeth yn barhaol;
- (e) anafiadau o losgiadau 80%.

Dosbarth II

2. Niwed Dosbarth II yw unrhyw niwed difrifol iawn y gellir yn rhesymol ei rag-weld o ganlyniad i'r perygl posibl dan sylw, gan gynnwys-

- (a) clefyd cardio-resbiriadol;
- (b) asthma;
- (c) clefydau resbiriadol anfalaen;
- (ch) gwenwyno gan blwm;
- (d) sioc anaffylactig;
- (dd) cryptosporidiosis;
- (e) clefyd y llengfilwyr;
- (f) cnawdnychiant myocardaidd;
- (ff) trawiad ysgafn;
- (g) dryswch cronicig;
- (ng) twymyn ddifrifol reolaidd;
- (h) colli llaw neu droed;
- (i) torasgwrn difrifol;
- (j) llosgiadau difrifol;
- (l) colli ymwybyddiaeth am ddyddiau.

Dosbarth III

3. Niwed Dosbarth III yw unrhyw niwed difrifol y gellir yn rhesymol ei rag-weld o ganlyniad i'r perygl posibl dan sylw, gan gynnwys-

- (a) anhwylderau'r llygad;
- (b) llid y ffroenau;
- (c) pwysedd gwaed uchel;
- (ch) anhunedd;
- (d) nam newroseicolegol;
- (dd) syndrom adeilad afiach;

SCHEDULE 2

Regulation 2

Classes of Harm

Class I

1. A Class I harm is such extreme harm as is reasonably foreseeable as a result of the hazard in question, including-

- (a) death from any cause;
- (b) lung cancer;
- (c) mesothelioma and other malignant tumours;
- (d) permanent paralysis below the neck;
- (e) regular severe pneumonia;
- (f) permanent loss of consciousness;
- (g) 80% burn injuries.

Class II

2. A Class II harm is such severe harm as is reasonably foreseeable as a result of the hazard in question, including-

- (a) cardio-respiratory disease;
- (b) asthma;
- (c) non-malignant respiratory diseases;
- (d) lead poisoning;
- (e) anaphylactic shock;
- (f) cryptosporidiosis;
- (g) legionnaires disease;
- (h) myocardial infarction;
- (i) mild stroke;
- (j) chronic confusion;
- (k) regular severe fever;
- (l) loss of a hand or foot;
- (m) serious fractures;
- (n) serious burns;
- (o) loss of consciousness for days.

Class III

3. A Class III harm is such serious harm as is reasonably foreseeable as a result of the hazard in question, including-

- (a) eye disorders;
- (b) rhinitis;
- (c) hypertension;
- (d) sleep disturbance;
- (e) neuropsychological impairment;
- (f) sick building syndrome;

- (e) dermatitis rheolaidd a chyson, gan gynnwys dermatitis drwy gyffyrddiad;
- (f) alergedd;
- (ff) llid y coluddion;
- (g) dolur rhydd;
- (ng)chwydu;
- (h) straen difrifol croniog;
- (i) trawiad ysgafn ar y galon;
- (j) canser malaen y croen ond un y gellir ei drin;
- (l) colli bys;
- (ll) torpengllog ac ergydwst difrifol;
- (m) clwyfau difrifol i'r pen neu i'r corff sy'n torri drwy'r cnawd;
- (n) llosgiadau difrifol i'r dwylo;
- (o) anafiadau straen neu ysigiad difrifol;
- (p) meigryn difrifol a rheolaidd.
- (g) regular and persistent dermatitis, including contact dermatitis;
- (h) allergy;
- (i) gastro-enteritis;
- (j) diarrhoea;
- (k) vomiting;
- (l) chronic severe stress;
- (m) mild heart attack;
- (n) malignant but treatable skin cancer;
- (o) loss of a finger;
- (p) fractured skull and severe concussion;
- (q) serious puncture wounds to head or body;
- (r) severe burns to hands;
- (s) serious strain or sprain injuries;
- (t) regular and severe migraine.

Dosbarth IV

4. Niwed Dosbarth IV yw unrhyw niwed cymedrol y gellir yn rhesymol ei rag-weld o ganlyniad i'r perygl posibl dan sylw, gan gynnwys-

- (a) haint y nodau eisbilennol;
- (b) anghysur difrifol achlysurol;
- (c) tyfiannau diniwed;
- (ch) niwmonia ysgafn achlysurol;
- (d) torri bys;
- (dd) ergydwst ysgafn;
- (e) briwiau cymedrol i'r wyneb neu i'r corff;
- (f) cleisio difrifol i'r corff;
- (ff) peswch neu annwyd difrifol rheolaidd.

Class IV

4. A Class IV harm is such moderate harm as is reasonably foreseeable as a result of the hazard in question, including-

- (a) pleural plaques;
- (b) occasional severe discomfort;
- (c) benign tumours;
- (d) occasional mild pneumonia;
- (e) broken finger;
- (f) slight concussion;
- (g) moderate cuts to face or body;
- (h) severe bruising to body;
- (i) regular serious coughs or colds.

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 1702 (Cy.164)

TAI, CYMRU

Rheoliadau System Mesur Iechyd a
Diogelwch ar gyfer Tai (Cymru)
2006

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 1702 (W.164)

HOUSING, WALES

The Housing Health and Safety
Rating System (Wales) Regulations
2006

© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W342/07/06

ON